# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Cae Crwn**

**Cartref Gofal Plas Cae Crwn**
**Park Street**
**Y Drenewydd**
**SY16 1EW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Plas Cae Crwn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Shaw healthcare (Cambria) Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Mehefin 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn byw yng nghartref Plas Cae Crwn. Mae'r staff gofal yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Gwelsom ryngweithio caredig ac amyneddgar drwy gydol y dydd. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu yn seiliedig ar eu diddordebau.

Yn yr arolygiad diwethaf, gwnaethom godi meysydd i'w gwella mewn perthynas â Rheoliadau 15, 16, 26 a 36. Ni chafodd y meysydd hyn eu hadolygu yn ystod yr arolygiad hwn, a hynny er mwyn rhoi digon o amser i'r darparwr wneud y newidiadau. Caiff y meysydd hyn eu hadolygu'n llawn yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r tîm rheoli yn ymrwymedig i wneud gwelliannau er budd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth, ac maent yn cydnabod bod angen gwelliannau pellach. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn ymweld yn rheolaidd.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gwneud dewisiadau mewn perthynas â'r rhan fwyaf o agweddau ar eu bywydau bob dydd, fel pa amser i godi a mynd i'r gwely, pryd i gael gofal personol, sut i dreulio eu hamser a beth yr hoffent ei fwyta. Caiff y bobl gynnig i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac mae'r tîm gweithgareddau yn gweithio'n galed i gael gwybod beth y mae'r bobl yn ei hoffi ac yn seilio gweithgareddau ar ddewisiadau unigolion. Gofynnir i'r bobl am yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys dewisiadau iaith. Mae'r darparwr yn gweithio tuag at gynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, drwy ddarparu arwyddion dwyieithog o amgylch y cartref, sicrhau bod dogfennau allweddol ar gael yn ddwyieithog a grymuso'r bobl i rannu eu sgiliau Cymraeg â'r staff gofal a phobl eraill sy'n byw yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn mwynhau eu profiad amser bwyd. Caiff y byrddau bwyd eu gosod, ac mae cerddoriaeth yn creu awyrgylch dymunol. Gofynnir i'r bobl beth yr hoffent ei fwyta a gallant ddewis ei fwyta yn yr ardaloedd bwyta neu yn eu hystafell wely. Dywedodd y bobl wrthym fod y bwyd yn flasus iawn ac os byddant am gael rhywbeth gwahanol, ei fod yn cael ei ddarparu. Caiff deietau arbenigol eu hystyried, a gwelsom ganllawiau a oedd yn cyfeirio at hyn yn yr ardaloedd bwyta er mwyn rhoi gwybodaeth i'r staff gofal. Nid yw'r bobl yn cael eu rhuthro yn ystod amser bwyd. Gwelsom y staff yn eistedd ac yn siarad â'r bobl ar ôl hynny, wrth gwblhau cofnodion gofal.

Rhoddir cymorth i'r bobl gyda'u hiechyd a'u llesiant. Gwelsom fod y staff yn ymateb i glychau galw mewn modd amserol. Dywedodd y bobl wrthym, pan fydd rhywbeth o'i le, fod y darparwr yn gwneud yn siŵr y ceir sylw meddygol, gan gynnwys yn ystod y nos. Mae cyfarpar arbenigol ar gael i'r bobl i'w helpu i symud ac ar gyfer pryderon iechyd eraill. Mae'r tîm nyrsys ardal yn ymweld â'r gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr fod cydberthynas waith gadarnhaol rhwng y cartref a'r tîm. Lle bydd iechyd y bobl yn newid, mae'r rheolwr yn cynnal asesiad i sicrhau bod y cymorth cywir ar waith ac y gall y gwasanaeth barhau i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'r darparwr yn gweithio i wella'r trefniadau ar gyfer goruchwylio digwyddiadau, damweiniau a materion diogelu, ac ar gyfer rhoi gwybod amdanynt. Mae hyn yn gwella wrth i'r staff ddod yn fwy hyderus yn defnyddio'r systemau sydd ar waith a chael hyfforddiant. Mae tystiolaeth dda o gadw cofnodion felly os bydd pryder, gall y darparwr roi tystiolaeth o'r hyn sydd wedi digwydd a'r camau sydd wedi'u cymryd. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn rhoi arweiniad a chymorth ar brosesau ac yn nodi pwy y gall y staff gysylltu â nhw os bydd angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n hygyrch ac yn diwallu eu hanghenion. Gall y bobl symud yn annibynnol ac mae rhwydd hynt ganddynt ddefnyddio gwahanol ardaloedd o'r cartref.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu treulio eu hamser fel y mynnant, a bod y staff yn parchu eu dewisiadau. Gwelsom bobl yn dewis treulio amser yn ardaloedd cymunedol y cartref, yn eu hystafelloedd eu hunain ac yn yr ystafell weithgareddau. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda, a gwelsom ryngweithio gofalgar a pharchus. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd y bobl yn mwynhau ymweld â'r triniwr gwallt. Roedd y bobl yn edrych yn daclus ac yn drwsiadus. Roedd y bobl wedi bod yn gwneud addurniadau yn barod ar gyfer Calan Gaeaf. Mae llyfrgell symudol sy'n cynnig dewis o gylchgronau a llyfrau i'r bobl eu defnyddio. Gwelsom y staff yn cymryd rhan mewn gemau cof gyda'r bobl drwy gydol y bore, ac roedd gan y bobl ddoliau a theganau meddal a oedd yn rhoi cysur iddynt, yn ôl pob golwg.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod nifer addas o staff yn gweithio'r shifft, a oedd yn golygu bod y bobl yn cael cymorth i gael bath neu gawod. Dywedodd y staff gofal wrthym y gall hyn fod yn anodd ar adegau os bydd y lefelau staffio yn isel. Gwnaethom edrych ar y rotas gofal a gwelsom fod y darparwr yn sicrhau bod nifer priodol o staff wedi'u trefnu i weithio ar bob shifft ac os bydd absenoldebau annisgwyl, ei fod yn ymdrin â hynny drwy ddefnyddio staff asiantaeth neu drwy ofyn i reolwr y gwasanaeth roi cymorth.

Yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi rhoi system cofnodion gofal electronig ar waith. Dywedodd y rheolwr wrthym fod hyfforddiant a chymorth ychwanegol wedi cael eu rhoi er mwyn helpu'r staff i ddefnyddio'r system hon yn effeithiol, a'i fod yn teimlo eu bod bellach yn fwy hyderus yn ei defnyddio. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd gennym fod angen gwella cysondeb a strwythur y cofnodion gofal. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth dda am hanes bywyd y bobl ac mae'r darparwr wedi dechrau sicrhau bod y bobl a/neu eu cynrychiolydd yn cael eu cynnwys wrth gwblhau ac adolygu'r cynlluniau personol.

Gwelsom dystiolaeth dda o wiriadau dyddiol ac mae system “atgoffa” yn sicrhau y caiff gwiriadau penodol eu cynnal. Mae hyn yn rhoi tystiolaeth bod y staff yn sicrhau y caiff y clychau galw a'r matiau synhwyraidd eu gweithredu pan fo angen ac o'r gofal y mae'r bobl wedi'i gael drwy gydol y dydd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n hybu eu hannibyniaeth. Mae pob rhan o'r cartref yn hygyrch iddynt, gan gynnwys yr ardaloedd awyr agored. Gall y bobl ddewis treulio eu hamser mewn nifer o ardaloedd cymunedol neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Caiff yr ystafelloedd gwely eu personoli'n unol â chwaeth y bobl ac fe'u hanogir i gael eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae rhai o'r bobl wedi gwneud arwyddion ac addurniadau eraill i'w helpu i adnabod eu hystafell. Mae'r darparwr yn gwneud cofnod os bydd pobl yn dewis peidio â gwneud hyn.

Gwelsom y bobl yn symud yn annibynnol o amgylch y cartref er mwyn cyrraedd yr ystafell weithgareddau a'r ardaloedd cymunedol eraill. Mae'r staff gofal yn rhoi cymorth i'r bobl sydd ei angen er mwyn iddynt allu treulio amser ble y mynnont. Mae gan y cartref arwyddion dwyieithog sy'n ystyriol o ddementia er mwyn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd o amgylch.

Mae'r darparwr yn cyflogi unigolyn cynnal a chadw sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r amgylchedd. Mae mesurau ar waith i sicrhau y caiff iechyd a diogelwch eu cynnal. Mae'r unigolyn cynnal a chadw yn cadw cofnod o'r holl wiriadau a gynhelir gan gynnwys tystysgrifau diogelwch ar gyfer meysydd fel diogelwch nwy a gwiriadau tân.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ymgynghorir â'r bobl am eu safbwyntiau a'u barn. Gwelsom fod cyfarfodydd preswylwyr yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod y bobl yn hoffi cymryd rhan ynddynt. Mae'r bobl yn rhannu eu barn am yr hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn y byddent yn hoffi ei newid. Mewn cyfarfod preswylwyr diweddar, dywedodd y bobl eu bod yn fodlon ar y ffordd yr ymgynghorir â nhw am eu safbwyntiau. Mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw i'r gwasanaeth yn disgrifio'r hyn y gall y bobl ei ddisgwyl os byddant yn dewis byw yng nghartref Plas Cae Crwn. Mae'r bobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth am bwy y gallant siarad â nhw os bydd ganddynt bryder.

Yn ystod yr ymweliad arolygu, gwelsom fod nifer digonol o staff gofal i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Gwnaethom adolygu'r lefelau staffio a nodwyd eu bod yn gyson. Pan geir problemau staffio, mae'r darparwr yn defnyddio staff asiantaeth i sicrhau bod anghenion y bobl yn cael eu diwallu ac yn gweithio gyda'r tîm er mwyn eu cefnogi. Mae'r darparwr yn parhau i recriwtio gyda chymorth tîm recriwtio.

Mae tîm o staff profiadol o fudd i'r bobl. Mae rhai ohonynt wedi gweithio yn y gwasanaeth am gyfnod hir ac yn adnabod y bobl yn dda. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cael cynnig sesiynau goruchwylio i drafod eu gwaith. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd sy'n sicrhau y caiff negeseuon allweddol eu cyfleu a gall unigolion drafod unrhyw bynciau y dymunant. Mae llinell ffôn, cyfeiriad e-bost a sesiynau galw heibio ar gyfer Chwythu'r Chwiban hefyd ar gael i'r staff, sy'n eu hannog i godi unrhyw bryderon. Mae hyfforddwr ar gael i'r staff gofal ar y safle, sy'n rhoi cymorth o ran symud a chodi a chario diogel a gofal dementia. Mae rheolwr y gwasanaeth a'r tîm rheoli ehangach yn parhau i gefnogi'r staff drwy gynnal sesiynau goruchwylio, arfarniadau a sesiynau hyfforddi, a thrwy ddefnyddio systemau sy'n helpu'r cartref i redeg yn effeithiol.

Mae Unigolyn Cyfrifol y gwasanaeth yn ymweld yn rheolaidd, gan gymryd amser i siarad â'r bobl sy'n byw yno a'r staff sy'n gweithio yno. Mae trefniadau cyfathrebu da ar waith rhwng aelodau'r tîm rheoli, sy'n golygu bod yr Unigolyn Cyfrifol yn gwybod beth sy'n digwydd yn y gwasanaeth a'i fod yn meddu ar wybodaeth dda am y bobl sy'n byw yno. Ar ddiwrnod ein harolygiad, roedd y rheolwr sicrhau ansawdd yn cynnal archwiliad mewnol o'r cartref. Mae hyn yn helpu'r rheolwr i nodi meysydd sy'n gweithio'n dda ac i nodi a oes angen unrhyw newidiadau er mwyn gwella ansawdd yn y cartref.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol na'r asesiadau risg yn cynnwys gwybodaeth ddigonol a chywir am sut y dylid darparu gofal y bobl. | Adolygwyd |
| 16 | Ni chaiff y bobl bob amser eu cynnwys wrth adolygu eu canlyniadau personol yn rheolaidd | Adolygwyd |
| 26 | Mae angen gwella'r prosesau sydd ar waith i wneud yn siŵr bod y bobl mor ddiogel ag y gallant fod er mwyn sicrhau canlyniadau da i'r bobl. | Adolygwyd |
| 36 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd nac arfarniadau o'u gwaith. | Adolygwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/11/2023